OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3225 (Cy.279)

AER GLÅN, CYMRU

Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*4 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 20(6) a 63(1) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau

2.—(1) Yn yr Atodlen (Tanwyddau Awdurdodedig) i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008(**3**), ar ôl paragraff 8, mewnosoder—

"**8A.** Brics glo Briteheat, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) wedi'u cyfansoddi o lo carreg (yn cyfateb i ryw 60% i 85% o gyfanswm eu pwysau), golosg petrolewm (yn cyfateb i ryw 30% o gyfanswm eu pwysau), glo rhwym (yn cyfateb i ryw 15% o gyfanswm eu pwysau), a rhwymwr triagl ac asid ffosfforig (yn cyfateb i weddill eu pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 300°C;

(**1**) 1993 (p.11).
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2008/3100 (Cy.274).